

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1639 (Cy. 344)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

ANIFEILIAID, CYMRU

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd
Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd
Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithrediad sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol i Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)) a Rheoliadau Rheolaethau

Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/44 (Cy. 5)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1639 (Cy. 344)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

ANIFEILIAID, CYMRU

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd
Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd
Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio)
(Ymadael â'r UE) 2020

Gwnaed 22 Rhagfyr 2020

Gosodwyd gerbon *Senedd*
Cymru 29 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o

Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft o'r offeryn gerbron Senedd Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddi.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

RHAN 2

Diwygio is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

“Amodau Mewnforio Arbennig

11A.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod amodau mewnforio arbennig mewn cysylltiad â mewnforion o drydydd gwledydd o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl, gan roi sylw i'r sefyllfa o ran iechyd anifeiliaid yn y drydedd wlad neu yn y trydydd gwledydd dan sylw, a chânt at y diben hwnnw ddiwygio, addasu neu ddirymu unrhyw fân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a wnaed o

(1) 2018 p. 16. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

(2) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

dan Erthygl 8(4) o Gyfarwydddeb y Cyngor 2002/99/EC(1).

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan y paragraff hwn—

- (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;
- (b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol; ac
- (c) yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'w ddiwddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru."

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020

3.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

- (a) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder—

"ystyr "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" (*"the Official Controls Regulations"*) yw Rheoliad yr UE a'r Rheoliadau Gweithredu, y Rheoliadau Dirprwyedig a'r offerynnau statudol a wnaed oddi tano;"

- (b) yn y diffiniad o "swyddog gorfodi", yn lle "orfodi Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "orfodi'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol";
- (c) yn y diffiniad o "deddfwriaeth berthnasol", yn lle "Ewropeaidd a domestig" rhodder "uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig".

(3) Yn rheoliad 4, hepgorer "yn y Deyrnas Unedig ac mewn Aelod-wladwriaethau eraill".

(4) Yn rheoliadau 4, 5(1), 9(3), 11(1), 12(1) a 13, ym mhob lle y maent yn digwydd, yn lle "a Rheoliadau

(1) OJ Rhif L 18, 23.1.2003, t. 11 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwydddeb y Cyngor 2013/20/EU (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234).

(2) O.S. 2020/44 (Cy. 5).

Rheolaethau Swyddogol yr UE” rhodder “a’r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol”, yn lle “â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE” rhodder “â’r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol”, yn lle “neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE” rhodder “neu’r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol” ac yn lle “yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE” rhodder “yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol”.

(5) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer “o Aelod-wladwriaeth arall”;

(ii) yn is-baragraff (a), hepgorer y gair “gwlad”;

(b) hepgorer paragraff (2).

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
22 Rhagfyr 2020